Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

shrn.org.uk

The School Health Research Network (SHRN)

# Ysgolion Cryfach, Dysgwyr Iachach: Gwerth Aelodaeth o’r Rhwydwaith i Ysgolion Uwchradd

**Maria Boffey**
**Rheolwr Materion Allanol a Chyfnewid Gwybodaeth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion**
**Mehefin 2025**

# Pwy Ydym Ni

**Partneriaeth polisi, ymchwil, ymarfer rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd.**

Mae'n cynnwys 99% o ysgolion uwchradd a gynhelir a 42% o ysgolion cynradd (*cyfeiriwch at gasgliad data cychwynnol y Rhwydwaith mewn ysgolion cynradd yn 2024).*

Mae arolygon myfyrwyr ac ysgol y Rhwydwaith yn cipio metrigau iechyd a lles allweddol.

Cyfeirir at y metrigau hyn mewn dros 30 o bolisïau a strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys y **Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant (2021)** ac **Adroddiad Iach a Hapus Estyn (2019)**.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion
School Health Research Network



DECIPHer
Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement
A Public Health Research Centre of Excellence

# Pam mae'r Rhwydwaith yn Bwysig

- **Data sy'n Canolbwyntio ar Bobl Ifanc:** Mae'r Rhwydwaith yn casglu data anhysbys, ar raddfa fawr, gan ddysgwyr am eu hiechyd, eu hymddygiadau ac amgylchedd yr hysgol. Mae hyn yn helpu i nodi tueddiadau a meysydd sydd angen cefnogaeth.
- **Polisïau yn seiliedig ar Dystiolaeth:** Mae'r data'n cael ei ddefnyddio i lywio polisïau ysgol, strategaethau iechyd cyhoeddus a phenderfyniadau'r llywodraeth – gan sicrhau bod ymyriadau wedi'u seilio mewn tystiolaeth o'r byd go iawn.
- **Grymuso Ysgolion:** Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn cael adroddiadau teilwredig sy'n eu helpu i ddeall anghenion eu dysgwyr a gwella'u rhaglenni iechyd a lles.
- **Ymchwil ac Arloesi:** Mae'r rhwydwaith yn cefnogi ymchwil academaidd i iechyd a lles plant, gan helpu i lywio ymyriadau yn y dyfodol.



## Y Rhwydwaith: Blaenoriaeth wedi’i chymeradwyo gan y Llywodraeth

**Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ein rôl hanfodol yn llywio polisi addysg a lles ar draws Cymru:**

“Mae’r Rhwydwaith, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn gonglfaen o ran darparu data a thystiolaeth amhrisiadwy sy’n llywio polisi ac ymarfer.

Ac yntau’n ehangu i ysgolion cynradd, mae’r Rhwydwaith yn parhau i gynnig un o’r setiau data mwyaf cynhwysfawr yn y DU. Mae’r data hanfodol hwn yn ategu polisïau iechyd meddwl ac addysg Llywodraeth Cymru ac mae’n gyrru gwaith mawr ei effaith yn y sector addysg ehangach ac mewn academia.

Mae’r Rhwydwaith yn chwarae rhan flaenllaw mewn gweddnewid y tirlun addysg, gan sicrhau lles ein plant a dyfodol ein cymunedau.”

**Lynne Neagle AS/MS,**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.**



# Meysydd Pwnc Iechyd a Lles y Rhwydwaith

- Mental health and well-being
- Physical activity
- Dietary behaviours
- Social media use
- Social relationships
- School connectedness
- Sexual health
- Substance use

# Deg Ffordd mae'r Rhwydwaith yn Grymuso Ysgolion i Ffynnu...

1. **Hybu Lles Dysgwyr:** Nodi a mynd i'r afael ag anghenion yn rhagweithiol, gan ddefnyddio strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi potensial pob dysgwr.
2. **Cael at Ddata o Ansawdd Uchel:** Defnyddio data dibynadwy i lywio polisi, cynllunio, olrhain cynnydd a chefnogi arolygiadau gyda hyder.
3. **Cysylltu a Chydweithredu:** Aelodau o rwydwaith fywiog o ysgolion, ymchwilwyr a phartneriaid sector cyhoeddus sy'n cyd-greu datrysiadau llawn effaith.
4. **Tyfu'n Broffesiynol:** Gwella datblygiad staff trwy gyfleoedd DPP a chipolygon y gellir gweithredu arnynt sy'n gwella arfer o ddydd i ddydd.
5. **Data Teilwredig ar Lefel Ysgol:** Derbyn adroddiadau a meincnodau cenedlaethol i lywio gweithredu lleol sy'n gyson â chyd-destun unigryw eich ysgol.
6. **Grymuso Pobl Ifanc:** Paratoi dysgwyr i wneud dewisiadau iach ac arwain mentrau lles.
7. **Ennill Cydnabyddiaeth:** Cryfhau hygrededd eich ysgol ac arddangos eich ymrwymiad i iechyd a lles trwy gysylltiad â'r Rhwydwaith.
8. **Meithrin Diwylliant Cadarnhaol:** Hyrwyddo amgylchedd cefnogol, cynhwysol sy'n canolbwyntio ar iechyd, lle mae staff a dysgwyr yn ffynnu.
9. **Ymgysylltu â'ch Cymuned:** Defnyddio cipolygon y Rhwydwaith i adeiladu cysylltiadau cryfach â theuluoedd a chydweithredu ar draws y sectorau iechyd, addysg ac ymchwil.
10. **Gyrru Newid Cynaliadwy:** Gwreiddio gwelliannau hirdymor, wedi'u llywio gan ddata, sy'n trawsnewid iechyd a lles ysgolion.

## Beth mae Ysgolion yn ei ddweud amdanom ni....

**“Rydym yn falch o’n cyflawniadau fel y cânt eu dathlu yn adroddiad ein harolygiad ysgol gan Estyn yn 2024, a ddywedodd: Er mwyn cynllunio ar gyfer ABCh, mae’r ysgol yn defnyddio data’r rhwydwaith ymchwil iechyd mewn ysgolion, yn gwrando ar rieni a disgyblion ac yn cydweithio’n agos â’r gymuned. Golyga hyn eu bod yn cynllunio’n gydlynus ar gyfer cwricwlwm perthnasol sy’n ymateb i faterion sy’n codi o fewn profiadau’r disgyblion.”-** *Ysgol Maes y Gwendraeth.*

**“Mae ein gwaith gyda’n data o’r Rhwydwaith wedi bod yn hynod fuddiol......Trwy flaenoriaethu iechyd a lles ein dysgwyr, credwn ein bod nid yn unig yn gwella’u llwyddiant academaidd, ond hefyd yn meithrin cenhedlaeth iachach, fwy gwydn, o ddysgwyr.” -** *Ysgol Uwchradd Aberconwy.*

**“Mae data’r Rhwydwaith, ynghyd ag adborth gan lais y myfyrwyr a chydweithwyr, wedi arwain at gwricwlwm sy’n ymatebol i anghenion ein dysgwyr, gyda chydweithwyr yn teimlo’u bod yn cael eu cefnogi i gyflwyno cynnwys y maes. Mae’r dull hwn wedi ein galluogi ni i ddatblygu cwricwlwm iechyd a lles priodol i oedran, wedi’i arwain gan ddysgwyr, sy’n sicrhau bod anghenion lles ein dysgwyr yn ganolog iddo.”-** *Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.*

# Edrych tua'r dyfodol:

- **Ehangu ein cyrhaeddiad:** Cyflawni ymateb llawn gan ysgolion cynradd ac archwilio cynnwys ysgolion nad ydynt yn y brif ffrwd.
- **Grymuso ysgolion:** Digwyddiadau; gweminarau; astudiaethau achos; papurau briffio a blog.
- **Manteisio ar dechnoleg:** Lansio Dangosfwrdd Data Lefel Uwchradd y Rhwydwaith 2026
- **Twf cynaliadwy a chydweithredol:** Cynyddu ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth gyda phartneriaid allweddol fel Iechyd Cyhoeddus Cymru ac WNHWPS.
- **Rhannu Data'r Rhwydwaith**: Ehangu data ysgolion uwchradd trwy Ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru y Rhwydwaith, gan gynnwys data ysgolion cynradd yn gynnar yn 2026, i lywio cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol.
- **Olrhain hydredol:** O'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, i ddeall effeithiau hirdymor yn well.
- **Ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd:** Cynnwys rhieni a gofalwyr, a chymunedau lleol mewn defnyddio data a chymorth a gwelliannau i iechyd a lles.

# Cymryd rhan!

Mae'r Rhwydwaith yn gyfle gwerthfawr i gryfhau iechyd a lles mewn ysgolion gan ddefnyddio **cymorth arbenigol a data o ansawdd uchel.**

Gan fod 99% o ysgolion uwchradd wedi cymryd rhan yn 2023, nawr yw'r amser perffaith i adeiladu ar eich momentwm a gyrru gwelliannau hirhoedlog.

**Arweinwyr Iechyd a Lles!** – **Cadwch lygad ar eich blwch negeseuon** am eich gwahoddiad i Gasgliad Data 2025 y Rhwydwaith a bod yn rhan o'r ymdrech genedlaethol hon i gefnogi iechyd a lles pobl ifanc.

# Eisiau Dysgu Rhagor?

**Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch:**

**Maria Boffey**

**Rheolwr Materion Allanol a Chyfnewid Gwybodaeth y Rhwydwaith**

Boffeym1@cardiff.ac.uk

**Ymwelwch â ni ar-lein:**

www.shrn.org.uk

**Gwyliwch ein gweminarau** a **darllenwch Flog** y Rhwydwaith i ddysgu rhagor a chael ysbrydoliaeth.
**Darllenwch Lwyddiannau ein Hysgolion** i weld sut mae ysgolion yn gwneud gwahaniaeth.
**Cofrestrwch ar gyfer ein e-newyddion** misol am ddiweddariadau a gwybodaeth yn syth i'ch e-bost.